

SEICOLEG

Amser a ganiateir – 1.5 awr

Cyfarwyddiadau i fyfyrwyr:

ADRAN A (40%): Rhaid i chi ateb pob un o'r PEDWAR (4) cwestiwn

ADRAN B (60%): Rhaid i chi ateb UN (1) cwestiwn o blith y chwech

ADRAN A (40%)

Darllenwch y crynodeb isod o waith ymchwil yn ofalus, ac atebwch y PEDWAR (4) cwestiwn isod.

Mae ymchwilydd yn awyddus i weld a yw'n well gan fyfyrwyr prifysgol ddysgu am ystadegau drwy ddarlithoedd, neu drwy gwrs ar-lein. I wneud hyn, mae'r ymchwilydd yn defnyddio dull holiadur, gan ddsbarthu 1000 o holiaduron i fyfyrwyr prifysgol yn eu blwyddyn olaf, yn gofyn am eu profiad dysgu yn y brifysgol.

1. Pam y gallai fod yn ddefnyddiol ateb cwestiwn ymchwil o'r fath?
2. Pa fath o gwestiynau allai'r ymchwilwyr eu gofyn yn yr holiadur?
3. A yw dull holiadur yn addas ar gyfer y math hwn o gwestiwn ymchwil? Rhowch resymau am eich ateb.
4. Beth yw'r ystyriaethau moesegol?

ADRAN B (60%)

Atebwch UN (1) cwestiwn o blith y chwech isod.

1. A yw seicoleg yn ddefnyddiol i'r gymdeithas? Trafodwch y rhesymau am eich penderfyniad.
2. Beth yw'r ystyriaethau moesegol y dylid eu hystyried bob amser wrth gynnal ymchwil gyda chyfranogwyr dynol?
3. Mae ymchwil yn awgrymu bod ymarfer corff yn gallu helpu i leihau symptomau iselder. Gyda hyn mewn golwg, mae Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu cynnal dosbarth aerobeg wedi'i deilwra ar gyfer cleifion sy'n dioddef o iselder clinigol. Fis i mewn i'r rhaglen, maent yn llwyddo i recriwtio menywod ond yn cael trafferth recriwtio dynion. Beth yw'r rhesymau posibl am hyn, a sut y gall y Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â'r broblem?
4. Mae siarad ar y ffôn wrth yrru yn erbyn y gyfraith. Esboniwch a) pam rydych yn meddwl ei fod yn beryglus a b) sut y gall seicoleg helpu i wneud gyrru'n fwy diogel i yrwyr, teithwyr a phobl eraill sy'n defnyddio'r ffyrdd. Ceisiwch ganolbwyntio'ch ateb ar agweddau ar wybyddiaeth.
5. Bu newid diweddar yng Nghymru sy'n golygu bod yn rhaid i bobl 'optio allan' o roi organau yn hytrach nag optio i mewn. Trafodwch a yw hyn yn ffordd foesol o ymdrin ag ymddygiad iechyd, a'r effeithiau seicolegol cadarnhaol neu negyddol a allai ddeillio o'r polisi hwn.
6. A yw negeseuon yn y cyfryngau yn dylanwadu ar ymddygiad pobl a'r hyn y maent yn ei gredu, er enghraifft ynglŷn ag ailgylchu, ysmegu neu bwysau? Rhodwch resymau am eich ateb.

DIWEDD